**LC105**

# CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

## ADRODDIAD I'R PWYLLGOR DEDDFAU

## Rheoliadau Diwygio Gofal Cymunedol (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2000

**Y Cefndir**
Pan fydd angen gwasanaethau gofal cymunedol ar berson, gall yr awdurdod lleol wneud taliadau i'r person hwnnw fel bod modd iddynt brynu'r gwasanaethau y mae arnynt eu hangen.

Mae'r ddarpariaeth hon yn adran 1 o Ddeddf Gofal Cymunedol (Taliadau Uniongyrchol) 1996. Mae'r personau y gellir gwneud taliadau o'r fath iddynt i'w pennu drwy reoliadau. Rheoliadau Gofal Cymunedol (Taliadau Uniongyrchol) 1997 yw'r rheoliadau cyfredol sy'n gymwys i Gymru a Lloegr.

Wrth bennu'r personau sy'n gymwys i gael taliad, mae rheoliadau 1997 yn peidio â chynnwys personau sy'n 65 oed neu drosodd. Mae'r rheoliadau sydd o dan sylw ar hyn o bryd yn diwygio Rheoliadau 1997 fel bod personau 65 oed neu drosodd yn dod yn gymwys bellach i gael taliad. Mae hyn yn dilyn diwygiad i'r un perwyl sydd wedi'i wneud ar gyfer Lloegr.

**Rheol Sefydlog 11.5**
Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

Nid oes unrhyw sylwadau cyffredinol y mae angen eu gwneud ychwaith.

**J H TURNBULL**
**Cynghorydd Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfau**

Cyf LAD-01-01-112

6 Mehefin 2000